# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(157)v6

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad o'r Cwricwlwm ac Asesu (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru
http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/Lleihau-Llosgi-Bwriadol/Pages/default.aspx

Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/frastrate

gy/?skip=1&lang=cy

Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru
http://wales.gov.uk/topics/transport/publications/roadsafety/?skip=1&lang=cy

**5 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: System Drafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru (30 munud)**

**6 Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (15 munud)**

**NDM5336 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2013.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol

**7 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)**

**NDM5338 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Rheoli Ceffylau (Cymru).

Gosodwyd Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na fu'r bil drwy broses pwyllgor Cyfnod 1.

**Dogfennau Ategol**

Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y

[Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.]

**8 Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)**

**NDM5339 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**9 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-2013 (60 munud)**

**NDM5337 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Cyntaf Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2012-13, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 26 Medi, sy'n amlygu'r gwaith a wneir gan y Comisiynydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi cyhoeddi safonau iaith Gymraeg yn dilyn gwaith y Comisiynydd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl gyrff sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn gweithredu polisi'r iaith Gymraeg.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgynghori'n eang ar ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a bod targedau cadarn yn cael eu sefydlu ar gyfer eu gweithredu.

**Dogfen Ategol**

[Adroddiad Blynyddol Cyntaf Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2012-13]

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 23 Hydref 2013